



Cynllun Strategol Bwydo Babanod BIPBC

Mae'n gynllun cynhwysfawr sy'n nodi gweledigaeth glir i greu diwylliant cefnogol yng ngogledd Cymru i alluogi teuluoedd i wneud penderfyniadau deallus am sut i fwydo eu babanod; sy'n mwyaflu eu maeth a'u helpu i ddatblygu perthnasau rhiant-baban cariadus ac agos.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn anelu at leihau anghydraddoldeb iechyd a chefnogi bob plentyn i gael y dechrau gorau mewn bywyd. Mae'r maeth gorau yn ffactor cyfrannol allweddol at hyn. Mae traean o blant gogledd Cymru nawr yn dechrau'r ysgol yn 4 oed ac eisoes dros bwysau ac yn ordew. Mae bwydo ar y fron, arferion bwydo babanod cadarnhaol a chynnydd pwysau cyson ym mlwyddyn gyntaf bywyd yn flociau adeiladu hanfodol ar gyfer sicrhau bod plant o bwysau iach



Y digwyddiad lansio (25 Mawrth 2019)

Mynychodd dros 120 o bobl lansiad Cynllun Strategol Bwydo Babanod y Bwrdd Iechyd, y cyntaf o'i fath yng Nghymru. Mynychodd ystod eang o staff sector cyhoeddus a thrydydd sector y digwyddiad, yn ogystal â rhieni. Bu'n gyfle arbennig i rannu dysg i sicrhau bod teuluoedd yng ngogledd Cymru yn derbyn y cyngor a chefnogaeth gorau am fagu a bwydo eu babanod.

Dymunai aelodau'r Grŵp Strategol Bwydo Babanod ddiolch i bawb am wneud lansiad y cynllun strategol mor llwyddiannus. Derbyniwyd adborth gwych am y digwyddiad ac mae'r cynllun yn rhoi dechrau arbennig i sicrhau bod teuluoedd yn derbyn cefnogaeth i wneud penderfyniadau deallus o ran bwydo a magu plant, gan arwain at y maeth gorau a gwelliant mewn iechyd a lles.

Eich Adborth

Roedd eich adborth yn dangos eich bod yn teimlo bod y cynllun hwn yn bwysig. Roeddech yn gwerthfawrogi'r digwyddiad i rwydweithio gydag eraill o amrywiol ddisgyblaethau a'r cyfle i fod yn rhan o'r ateb a chymryd cyfrifoldeb drwy addo'ch ymroddiad.



CYFLWYNIADAU O ANSAWDD UCHEL

CADARNHAOL
TREFNIADAU ARBENNIG
EGNIOL
GRYMUSO
CYFRIFOLDEB
PAWB YSGOGOL
ADDYSGIADOL
SYSTEM GYFLEITHU DDA

PERTHNASOL I BOB DISGYBLAETH





Prif flaenoriaethau i chi

- Adolygu ansawdd a chysondeb gwybodaeth a chefnogaeth i ferched a theuluoedd ar bob cyfnod o feichiogrwydd i helpu teuluoedd i wneud penderfyniadau deallus o ran dull bwydo.
- Gwerthfawrogi Cefnogwyr Cyfoedion Bwydo ar y Fron
- Addysgu teuluoedd a chymunedau cyfan i normaleiddio bwydo ar y fron
- Hyrwyddo Dechrau Iach yn weithredol ar draws ein cymunedau i gynyddu derbyn a sicrhau bod y rhai â hawl yn cael mynediad yn rhwydd
- Sicrhau bod yr holl staff iechyd proffesiynol a chefnogwyr cyfoedion yn meddu ar yr wybodaeth a sgiliau i gefnogi'r holl rieni i adeiladu perthnasau magu da gyda'u plant.
- Hyrwyddo bwydo ar y fron, bwydo ymatebol a diogel a chyflwyno bwyd soled amserol.
- Gwella cefnogaeth mewn ysbytai ac o fewn yr ychydig ddyddiau cyntaf
- Sicrhau bod yr holl ferched yn cael cyfle ar gyfer cyswllt croen-wrth-groen o ansawdd ar ôl geni
- Sicrhau bod yr holl unedau newydd-anedig yn annog hwyluso croen-wrth-groen a sefydlu bwydo ar y fron
- Cefnogi staff i barhau i fwydo ar y fron ar ôl dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod mamolaeth



Camau Nesaf...

Bydd eich cyfraniadau ac adborth yn cael eu dwyn ymlaen yn y cynllun gweithredu, a bydd y Grŵp Strategol Bwydo Babanod yn eu datblygu a'u rheoli. Mae'r grŵp yn cydnabod pwysigrwydd derbyn barn pawb a bydd yn parhau i rannau cheisio barn.

Os hoffech gyfrannu ymhellach, cysylltwch ag: Sarah Hughes, Sarah.Hughes88@wales.co.uk



BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

CYNLLUN STRATEGOL BWyDO BABANOD

2019

I weld a lawrlwytho'r cynllun, dilynwch y ddolen hon:
<https://bit.ly/2W0yFPJ> neu cliciwch ar y ddelwedd uchod.